# Nodi Wythnos Genedlaethol y Coed gyda buddsoddiad o £3.9 miliwn yng nghoetiroedd Cymru

26/11/2025



Coetir yng Ngwlypdir Cymunedol Cwmbach. Credyd: Robert Hollidge.

Mae'r chweched rownd ariannu hon yn helpu siapio rhwydwaith Cymru gyfan o goetiroedd i gymunedau lleol eu defnyddio a'u mwynhau.

Wrth i ni ddathlu Wythnos Genedlaethol y Coed mae arian wedi'i ddyfarnu i 23 o brosiectau newydd gan Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG). Byddant yn gweithio i adfer, mwyhau a gwella mynediad i goetiroedd yng Nghymru.

Rydym yn cyflwyno'r cynllun mewn partneriaeth â Rhaglen Coedwig Genedlaethol i Gymru Llywodraeth Cymru – menter sydd â'r nod o fynd i'r afael â cholli bioamrywiaeth a chefnogi iechyd a lles cymunedau trwy goetiroedd a choedwigoedd sy'n cael eu rheoli'n dda.

> Bydd y grantiau hyn yn gwella coetiroedd ac yn gwarchod ein cynefinoedd gwerthfawr, gan helpu safleoedd i fod yn fwy hygyrch a rhoi gwell mynediad i fyd natur i gymunedau ar draws Cymru.

*Huw Irranca-Davies, Dirprwy Brif Weinidog â chyfrifoldeb dros Newid Hinsawdd*

## Tair blynedd o gefnogaeth i goetiroedd

Lansiwyd TWIG yn 2022 ac ers hynny mae wedi dyfarnu dros £11m i 64 o brosiectau ar draws Cymru. Yn y rownd ddiweddaraf hon, bydd prosiectau'n derbyn cyfran o £3.9m. Maent yn cynnwys:



Shinrin yoku (ymdrochi mewn coedwig) yng Nghoed Castell Helygain. Credyd Vanessa Warrington.

- **Coed Castell Helygain** sy'n derbyn £248,640 i adfer a rheoli 12 erw o goetir hynafol am y tro cyntaf mewn 60 mlynedd. Fel rhan o'r prosiect, bydd yn datblygu WildEnhanceBelong (WEB), hwb dysgu a lles i gysylltu pobl ifanc â manteision lles cyfannol byd natur. Bydd hyn yn cynnwys gweithdai yn arfer Japaneaidd shinrin yoku neu ymdrochi mewn coedwig.
- **Down to Zero** sy'n derbyn £222,024 i wella mynediad i Wlypdir a Choetir Cymunedol Cwmbach yn Aberdâr. Bydd y prosiect yn creu llwybr natur newydd a fydd yn cysylltu â Chamlas Aberdâr.
- **Chris Brown,** sy'n derbyn £210,387 i agor coetir preifat i'r cyhoedd. Mae gan Hendre Ddu yng Ngarndolbenmaen hanes cyfoethog sy'n dyddio'n ôl i'r cyfnod neolithig gyda thystiolaeth o ffermio, tai, ffwrn doddi a mwynglawdd llechi segur. Bydd y prosiect yn sefydlu rhwydwaith llwybrau newydd ac yn gosod byrddau dehongli i ymwelwyr ddysgu mwy am dreftadaeth y coetir.

Dywedodd Huw Irranca-Davies, Dirprwy Brif Weinidog â chyfrifoldeb dros Newid Hinsawdd: “Mae coetiroedd yn hanfodol i iechyd a lles pobl, yn ogystal â chefnogi ein brwydr yn erbyn newid hinsawdd. Bydd y grantiau hyn yn gwella coetiroedd ac yn gwarchod ein cynefinoedd gwerthfawr, gan helpu safleoedd i fod yn fwy hygyrch a rhoi gwell mynediad i fyd natur i gymunedau ar draws Cymru.

"Mae Coedwig Genedlaethol i Gymru'n helpu sicrhau y gall pawb elwa o'n treftadaeth naturiol, ac rwy'n falch o weld y rhaglen hon yn cefnogi prosiectau lleol a fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i bobl a'r blaned fel ei gilydd."

## Mwy o wybodaeth

Archwiliwch y rhestr lawn o brosiectau sydd wedi cael eu hariannu yn Rownd Chwech Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG).



## ddordeb hefyd mewn ...

Cerddwyr ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Llun: National Trust Images, Paul Harris.




### naturiol gwarchodedig Cymru

Volunteers planting trees. Photo: Saoirse Clohessy.



### natural heritage





A community group build benches as part of the Lost Peatlands project. Photo: Neath Port Talbot Council.

## Holi ac Ateb gyda grantï: sut i greu naratif prosiect llawn cymhelliad